Dŵr Cymru
Welsh Water

Datganiad Polisi ar Reoli Asedau

Bwriad y Polisi hwn yw amlinellu'r canllawiau a'r arferion sy'n ymwneud â phenderfyniadau ym maes rheoli asedau er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni gweledigaeth Dŵr Cymru 2050, sef ennill ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd. Gwnawn hyn trwy ddarparu gwasanaethau hanfodol o safon uchel sy'n diogelu iechyd ein cwsmeriaid, ein cymunedau a'r amgylchedd o'n cwmpas. Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i'r holl asedau sy'n eiddo i Dŵr Cymru a'r gwaith a wneir arnynt ar hyd eu hoes, ac yn berthnasol i'r staff, y contractwyr a'r ymgynghorwyr.

Y Bwriad

Mae Dŵr Cymru yn awyddus i'w gwsmeriaid gael gwasanaeth diogel, dibynadwy a chadarn sy'n cwrdd â'u hanghenion a'u disgwyliadau i gyd, a hynny am bris fforddiadwy. Bwriad y Polisi yw sicrhau bod yr holl weithwyr a phob adran yn anelu at y nod hwn a sicrhau bod yr asedau'n cael eu rheoli mewn ffordd sy'n rhoi'r manteision mwyaf, yn lleihau risg ac yn darparu gwasanaethau o lefel foddhaol i'r cwsmeriaid mewn ffordd ddiogel a chynaliadwy.

Gwnawn hyn trwy:

— Gydymffurfio â gofynion statudol a rheoleiddiol cyfredol a pherthnasol a gofynion eraill sy'n angenrheidiol ym marn y busnes.

— Ymgynghori â'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid ynghylch eu gofynion o ran gwasanaethau, yn awr ac at y dyfodol.

— Gwneud gwelliannau parhaus i'n System Rheoli Asedau a seilir ar wasanaethu cwsmeriaid, sy'n flaengar ac sy'n seiliedig ar sicrhau'r gost orau am oes gyfan ein hasedau.

— Gwneud gwelliannau parhaus i'n dull o adnabod a rheoli risgiau, pennu targedau a chynllunio ymyriadau ac i safonau asedau a sicrhau bod y gwaith yn cael ei gyflawni'n well.

— Gweithredu a gwella ein System Rheoli Asedau trwy gyflawni ein hamcanion, ein strategaethau a'n cynlluniau ym maes rheoli asedau, pob un ohonynt wedi'i seilio ar ddulliau gweithredu arloesol.

— Ymrwymo i sicrhau bod digon o adnoddau cymwys yn eu lle er mwyn datblygu, gweithredu a gwella'r System Rheoli Asedau yn barhaus. Sicrhau bod ein System Rheoli Asedau yn cyd-fynd â pholisïau eraill Dŵr Cymru, yn cynnwys y polisïau Iechyd a Diogelwch, Cynaliadwyedd, yr Amgylchedd, Rheoli Ansawdd, ac Adnoddau Dynol er mwyn sicrhau cysondeb.

Mae Dŵr Cymru yn pennu ac yn cynnal amcanion a thargedau ym maes rheoli asedau sy'n cael eu cysoni, eu dogfennu a'u hadolygu trwy Dŵr Cymru 2050, y Cynlluniau Busnes, a'r Adroddiadau Perfformiad Blynyddol. Caiff perfformiad y System Rheoli Asedau ei adolygu hefyd trwy ardystio ei fod yn cydymffurfio ag ISO55001:2014 Rheoli Asedau.

Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r Polisi hwn a'r Cyfarwyddwr Cynllunio Asedau sy'n gyfrifol am arwain y gwaith o'i weithredu trwy'r sefydliad cyfan. Caiff y Polisi ei gyfleu i'r rhanddeiliaid, i holl weithwyr Dŵr Cymru ac i bawb sy'n gweithio ar ran Dŵr Cymru, yn cynnwys cyflenwyr a chontractwyr.

Caiff y Polisi hwn ei adolygu'n flynyddol ac fel rhan o'r cylch rheoleiddio. Caiff ei adolygu pan gyfyd newidiadau arwyddocaol a/neu berthnasol hefyd.



Peter Perry
Prif Weithredwr
Dŵr Cymru
Ebrill 2021